OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ewloe, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Ionawr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *12 Ionawr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ewloe, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 12 Ionawr 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A494 Trunk Road (Ewloe, Flintshire) (Temporary Prohibition of Pedestrians & Cyclists) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 January 2020* |
| *Coming into force* | *12 January 2020* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A494 Trunk Road (Ewloe, Flintshire) (Temporary Prohibition of Pedestrians & Cyclists) Order 2020 and it comes into force on 12 January 2020.

**2.** In this Order:

"the trunk road" means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means that period commencing at 19:00 hours on 12 January 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Ionawr 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o droetffordd sy'n gyfagos i ochr ogleddol cefnffordd yr A494 ger Aston Hill, Ewloe, Sir y Fflint sy'n ymestyn am 690 o fetrau o bwynt sy'n gyfagos i ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Ewloe hyd at bwynt yn union i'r de o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 25.

**Prohibitions**

**3.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**5.** The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**6.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 7 January 2020

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of footway adjacent to the northern side of the A494 trunk road near Aston Hill, Ewloe, Flintshire that extends for 690 metres from a point adjacent to the north-eastern side of Ewloe Roundabout to a point immediately south of Public Footpath No. 25.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (EWLOE, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERDDWYR A BEICWYR DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A494 neu gerllaw iddi, ger Old Aston Hill, Ewloe, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerddwr a beiciwr rhag mynd ar y darn o'r droetffordd ar ochr ogleddol cefnffordd yr A494 ger Aston Hill, Ewloe sy'n ymestyn am 690 o fetrau o bwynt sy'n gyfagos at ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Ewloe hyd at bwynt yn union i'r de o Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 25.

Y llwybr arall yw mynd ar y troetffyrdd ar hyd Liverpool Road ac Old Aston Hill.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 12 Ionawr 2020 ac y byddant yn parhau mewn grym tan 23 Chwefror 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (EWLOE, FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF PEDESTRIANS & CYCLISTS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A494 trunk road near Old Aston Hill, Ewloe, Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all pedestrians and cyclists from proceeding on the length of footway on the northern side of the A494 trunk road near Aston Hill, Ewloe that extends for 690 metres from a point adjacent to the north-eastern side of Ewloe Roundabout to a point immediately south of Public Footpath No. 25.

The alternative route is via the footways along Liverpool Road and Old Aston Hill.

The temporary prohibitions are expected to come into force at 19:00 hours on 12 January 2020 and remain in force until 23 February 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government